# Cofnodion Cyngor Bro Llangwm 27.11.2019

**PRESENNOL – Mair Owen, Sioned Jones, Gwyn Davies, Gwyndaf Jones, Gwynfryn Jones (cadeirydd) Rhian Ellis (Clerc)**

**YMDDIHEURIADAU – Glenydd Evans**

1. **Cofnodion Pwyllgor 30.10.19 – Nodwyd bod camgymeriad yn y cofnodion 'Ty Haul' a nid 'To Haul' ddylai fod wedi ei gofnodi. Cynigwyd y cofnodion yn gywir gyda gwelliannau gan Gwyn Davies ac eilwyd gan Sioned Jones**

2. **Materion yn Codi o'r cofnodion**

    a. **Sgips yn cyrraedd Llangwm am 9 bore y 10fed o Ragfyr ac yn Dinmael am 9 ar y 11eg o Ragfyr. Poster i hysbysebu wedi ei roi yn y ddwy ardal.**

    b. **Neuadd fach – Amcan bris wedi dod I fewn gan Eryl Vaughan. Gwynfryn am roi yr un gofynion I Dewi Jones i gael pris ganddo.**

    c. **JCB – Y Clerc wedi siarad gyda'r Cyngor a mae'r perchenog yn ymwybodol bod angen ei symud.**

3. **Cynllunio – Cais cynllunio wedi mynd I fewn yn Bodlondeb, Dinmael, y pwyllgor yn bryderus am yr adwy a hefyd man parcio – y clerc i anfon i'r cyngor**

4. **Archwiliad – Penderfynwyd ein bod am ymaelodi gyda Unllais Cymru.**

5. **Unrhyw Fater Arall**

    a. **Cynrychiolwyr Newydd – Penderfynwyd rhoi hysbysebiad I fyny ar y bwrdd hysbysebu yn Dinmael a Llangwm.**

    b. **Dywedodd Mrs Mair Owen ei bod yn ymddiswyddo fel Cynghorydd a diolchodd Gwynfryn Jones iddi am ei gwaith diflino am amryw o flynyddoedd.**

    c. **Llythyr gan ysgrifennydd Llen y Llannau yn gofyn am gyfraniad tuag at y gwaith o'i gyhoeddi – Penderfynnwyd gyfrannu £50.00.**

**d. Peintio y Ciosg – Wedi cryn drafodaeth penderfynnwyd nad ydym am beintio y ciosg gan mai BT yw perchenog.**

**e. Bys Shelter – Penderfynnwyd rhoi cyfraniad I Eifl Roberts am y gwaith o dwtio y shelter bws.**

**Dyddiad Cyfarfod Nesa' 21.1.2020**